
Adolygiad o'r rheolau o ran amlygrwydd BBC Three

Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Cod EPG
llinol

[] Wedi'i olygu ar gyfer cyhoeddi

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 16 Medi 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 14 Hydref 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

Trosolwg

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi newidiadau arfaethedig i'n Cod Ymarfer Canllaw Rhaglenni Electronig (EPG) yng ngoleuni ein penderfyniad dros dro i ganiatáu i'r BBC fwrw ymlaen â'i gynnydd i ddod â BBC Three yn ôl fel sianel deledu ddarlledu. Nid ydym yn ymgynghori ar ddiwygio darpariaethau amlygrwydd priodol y Cod EPG yn ehangach.
- 1.2 Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i lunio, adolygu a diwygio Cod Ymarfer ([y Cod EPG](#)) ar gyfer darparwyr trwyddedig canllawiau teledu ar y sgrin – a elwir yn 'ganllawiau rhaglenni electronig' (EPG). Mae hyn yn sicrhau ymhlith pethau eraill, y fath gyfradd o amlygrwydd y mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol ar gyfer y sianeli gwasanaeth cyhoeddus (y sianeli 'dynodedig') – gan gynnwys Sianeli'r BBC – i sicrhau eu bod yn hawdd dod o hyd iddynt a'u gwyllo. Yn dilyn adolygiad diweddar, daeth Cod EPG newydd i rym ym mis Ionawr 2021.
- 1.3 Mae Ofcom yn cynnal [asesiad cystadleuaeth](#) ar gynigion y BBC i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ddarlledu, ac rydym ar yr un pryd yn ymgynghori ar ein penderfyniad dros dro i gymeradwyo ei chynlluniau.
- 1.4 Os caiff BBC Three ei ail-lansio yn y pen draw, fe aiff yn sianel ddynodedig o dan ddarpariaethau Deddf Cyfathrebu 2003. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni sicrhau lefel briodol o amlygrwydd i'r sianel o fewn EPGau pob darparwr trwyddedig.
- 1.5 I'r perwyl hwnnw, rydym wedi adolygu'r Cod EPG i ddod i farn ar y lefel amlygrwydd isaf sy'n briodol ar gyfer BBC Three, ac wedi ystyried faint o amser y dylid ei roi i lwyfannau i weithredu unrhyw newidiadau. Rydym yn awr yn croesawu barn rhanddeiliaid ar ein cynigion.

Ein casgliadau arfaethedig

Ein casgliad dros dro yw y dylai BBC Three ymddangos o fewn 24 slot cyntaf y canllawiau rhaglenni electronig. Mae ein cynigion yn adlewyrchu'r ffaith bod amlygrwydd priodol yn dibynnu ar gymeriad, cynnwys a chynulleidfa darged y sianeli dynodedig. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi ystyried yr ystod o effeithiau posib ar gynulleidfaoedd, darparwyr EPG a darlledwyr eraill.

Rydym o'r farn y dylai darparwyr EPG gael uchafswm o 18 mis i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol. Credwn y bydd cyfnod gweithredu hirach yn lliniaru rhai o effeithiau ein penderfyniad drwy ganiatáu digon o amser i'r BBC, darparwyr EPG a darlledwyr gynllunio a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i sicrhau newid llyfn er budd cynulleidfaoedd. Gall cyfnod hirach gyfyngu ar rywfaent o werth cyhoeddus ail-lansio BBC Three, ond mae 18 mis yn uchafswm cyfnod a disgwyliwn y bydd modd i rai darparwyr EPG weithredu'r newidiadau hyn yn gynt.

Dim ond crynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Disgrifir y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.